NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Gastroplasti llawes endosgopig ar gyfer gordewdra

22 Chwefror 2024

Gellir defnyddio'r driniaeth hon i drin gordewdra mewn oedolion oherwydd mae'n gweithio'n dda ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw yn y cyflwr hwn.

Mae mynegai más y corff (BMI) yn mesur a yw pwysau rhywun yn iach ar gyfer ei daldra. Gordewdra yw BMI o 30 a throsodd neu 27.5 a throsodd i bobl o dras De Asiaidd, Tsieineaidd, Asiaidd, Dwyrain Canol, Du Affricanaidd neu Affricanaidd-Caribïaidd arall.

Yn y driniaeth hon, caiff tiwb hyblyg gyda chamera ar y pen (endosgop) a dyfais pwytho arbennig eu pasio drwy'r geg, i mewn i'r stumog o dan anesthesia cyffredinol. Gan ddefnyddio'r ddyfais bwytho, caiff 1 plyg neu fwy eu gwneud yn wal y stumog a'u gwnïo ynghyd (gastroplasti llawes). Nid oes unrhyw dorri na styffylu, ac ni chaiff unrhyw ran o'r stumog ei thynnu allan, felly bydd modd gwyrdroi'r driniaeth o bosibl. Fel rheol, gall pobl fynd gartref ar yr un diwrnod â'r driniaeth. Y nod yw lleihau maint y stumog gan ryw 70% i 80% ac felly lleihau faint o fwyd y gellir ei fwyta cyn y byddwch yn teimlo'n llawn.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ordewdra fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio'r hyn y mae trefniadau safonol yn ei olygu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8966-9